Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Y Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 2

Arfarniad o effaith y Fframwaith Sgiliau anstatudol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 2

Gorffennaf 2011

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- awdurdodau lleol;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Cynnwys	Tudalen

Crynodeb **1**

Prif ganfyddiadau **2**

Argymhellion **4**

Cyd-destun **5**

1 Cynllunio'r cwricwlwm **7**

Deall a chymhwyso'r Fframwaith Sgiliau 7
Cymorth a hyfforddiant 8
Goblygiadau ariannol 10
Gweithio mewn clystyrau 10

2 Asesu ac olrhain **12**

3 Addysgu a dysgu **13**

Cynnwys disgyblion i gynllunio eu dysgu eu hunain 13

4 Arfarnu'r effaith ar ddeilliannau disgyblion **15**

Atodiad 1 – Sail y dystiolaeth

Atodiad 2 – Astudiaethau achos

Geirfa

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Crynodeb

1 Mae'r Fframwaith Sgiliau anstatudol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru yn rhoi arweiniad ar ddatblygu medrau disgyblion o ran meddwl, cyfathrebu, TGCh[1] a rhif. Cynlluniwyd y Fframwaith Sgiliau yn sail i Orchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysgu a dysgu ym mhob maes pwnc.

2 Ni ddefnyddir y Fframwaith Sgiliau'n dda i gynllunio dilyniant o ran medrau disgyblion. Prin yw'r ysgolion sy'n defnyddio'r Fframwaith Sgiliau yn fan cychwyn i gynllunio eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol i gynllunio cynlluniau gwaith yn gyntaf ac yn nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion wedyn. O ganlyniad, prin yw'r ysgolion sy'n cynllunio cwricwlwm 'seiliedig ar fedrau' sy'n cynnwys gweithgareddau sy'n cymhlethu'n raddol sy'n cael eu cynllunio i ddatblygu medrau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif y disgyblion.

3 Er bod y Fframwaith Sgiliau wedi cynyddu ymwybyddiaeth athrawon o ba mor bwysig yw gwella medrau disgyblion, yn rhy aml mae athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn bynciau ar wahân, heb roi digon o sylw i'r ffordd y mae pynciau, fel hanes neu ddaearyddiaeth, yn darparu cyd-destun i ddatblygu llythrennedd, rhifedd a medrau eraill. Nid yw'r medrau hyn yn ffurfio elfennau trefnu craidd nac asgwrn cefn cynlluniau gwaith athrawon. O ganlyniad, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau rhif, darllen ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm cyfan.

4 Asesu neu olrhain cynnydd disgyblion o ran medrau yw un o'r agweddau gwannaf ar yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy. Nid yw athrawon yn ymwybodol o gyflawniad blaenorol disgyblion mewn medrau ac, o ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

[1] Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Prif ganfyddiadau

5 Mae'r Fframwaith Sgiliau yn anstatudol ac fe'i datblygwyd ar ôl cyflwyno Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol yn wreiddiol. Ar y cyfan, nid yw ysgolion yn ystyried bod medrau'n fan cychwyn i gynllunio'r cwricwlwm, ond eu bod yn hytrach yn ychwanegiad at gynlluniau gwaith presennol. Dim ond mewn ambell ysgol, neu adran mewn ysgol, y mae athrawon wedi ail-lunio eu cynlluniau gwaith i ganolbwyntio ar sut mae disgyblion yn caffael medrau.

6 Mae ysgolion yn defnyddio Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol i gynllunio cynlluniau gwaith yn gyntaf ac yn nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion wedyn. Mae hyn yn digwydd gan nad yw athrawon yn deall y Fframwaith Sgiliau anstatudol yn glir fel sail i gynllunio cwricwlwm sy'n bodloni holl ofynion statudol Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol. O ganlyniad, prin yw'r ysgolion sy'n cynllunio cwricwlwm 'seiliedig ar fedrau' sy'n cynnwys gweithgareddau sy'n cymhlethu'n raddol sy'n cael eu cynllunio i ddatblygu medrau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif y disgyblion.

7 Er bod y Fframwaith Sgiliau wedi cynyddu ymwybyddiaeth athrawon o ba mor bwysig yw gwella medrau disgyblion, yn rhy aml mae athrawon yn parhau i gynllunio'r cwricwlwm yn bynciau ar wahân heb roi digon o sylw i sut mae pynciau, fel hanes neu ddaearyddiaeth, yn gallu cefnogi a darparu cyd-destun i ddatblygu llythrennedd, rhifedd a medrau eraill. Nid ydynt yn cydnabod yn llawn y dylai medrau fel llythrennedd a rhifedd fod yn elfennau trefnu craidd ac asgwrn cefn yn eu cynlluniau gwaith. O ganlyniad, nid ydynt yn cynllunio i sicrhau bod pob agwedd ar y cwricwlwm yn rhoi cyfleoedd priodol a digon heriol i ddisgyblion gyfnerthu, cymhwyso ac estyn eu medrau cyfathrebu a rhif.

8 Yn rhyw hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r arolwg hwn, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau rhif, darllen neu ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm cyfan. Yn arbennig, nid oes digon o ysgolion yn addysgu medrau darllen lefel uchel yng nghyfnod allweddol 2.

9 Asesu neu olrhain cynnydd disgyblion o ran medrau yw un o'r agweddau gwannaf ar yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy. Fel arfer, nid oes system ysgol gyfan i olrhain sut mae gwahanol ddisgyblion yn datblygu medrau. Nid yw athrawon yn gwybod am gyflawniad blaenorol disgyblion mewn medrau ac felly nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau priodol o heriol i estyn eu dysgu. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd o ran defnyddio a chymhwyso eu medrau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif.

10 Yn yr ychydig ysgolion sydd â chwricwlwm effeithiol sy'n seiliedig ar fedrau, mae gan yr uwch arweinwyr weledigaeth strategol glir ac maent yn deall yn dda sut i ddefnyddio'r Fframwaith Sgiliau. Erbyn hyn, mae llawer o'r ysgolion hyn wrthi'n magu hyder a gallu eu staff i ddefnyddio'r Fframwaith Sgiliau yn sail i gynllunio, addysgu a dysgu.

11 Mae APADGOS[2] ac awdurdodau lleol wedi darparu hyfforddiant ar ddefnyddio medrau meddwl mewn ysgolion. Erbyn hyn, mae llawer o ysgolion yn rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu medrau meddwl disgyblion nag ar ddatblygu eu medrau cyfathrebu, TGCh a rhif. Ond eto, yn rhyw hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy, ni chaiff y disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddefnyddio a datblygu medrau meddwl, fel dod i gasgliadau, ystyried tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau neu arfarnu eu dysgu a'u meddwl eu hunain.

12 Mae awdurdodau lleol wedi rhoi cymorth ac arweiniad effeithiol i'w hysgolion ar sut i weithredu Gorchmynion Pwnc Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig 2008. Fodd bynnag, ni chafodd yr ysgolion gymorth yr un mor effeithiol i ddefnyddio'r Fframwaith Sgiliau fel sail i gynllunio'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Nid yw pob ymgynghorydd awdurdod lleol yn deall sut y gellir defnyddio'r Fframwaith Sgiliau yn arf cynllunio i ddatblygu, monitro ac asesu medrau ar draws y cwricwlwm.

13 Mae llawer o ysgolion yn gweithio ar eu pen eu hunain wrth geisio gwella systemau i ddatblygu cwricwlwm effeithiol sy'n seiliedig ar fedrau ac i asesu caffaeliad medrau disgyblion. Nid yw awdurdodau lleol yn gwneud digon i gydlynu trefniadau rhwng clystyrau ysgolion i rannu arfer a gwneud y mwyaf o'u harbenigedd cyfunol.

14 Mae lleiafrif o ysgolion wedi prynu cynlluniau gwaith cyhoeddedig i gyflenwi cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau, sy'n fannau cychwyn defnyddiol wrth gynllunio cwricwlwm newydd. Serch hynny, prin yw'r dystiolaeth fod yr adnoddau hyn yn helpu i wella addysgu a dysgu y tu hwnt i'r hyn y gellir ei gyflawni drwy ddefnyddio'r Fframwaith Sgiliau yn unig.

[2] Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Argymhellion

Dylai ysgolion:

A1 sicrhau bod datblygu medrau disgyblion, a llythrennedd a rhifedd yn arbennig, wrth wraidd y cwricwlwm a'i fod yn fan cychwyn i gynllunio cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau;

A2 rhoi cyfleoedd gwell a mwy effeithiol i bob disgybl ymarfer, cymhwyso ac adeiladu ei fedrau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif, a hynny ar gyflymder a lefel briodol;

A3 addysgu darllen yn fwy eglur a chynyddol fel medr yng nghyfnod allweddol 2;

A4 cysoni pob cynllun gwaith pwnc ag egwyddorion cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau; a

A5 mabwysiadu dull ysgol gyfan o asesu ac olrhain cynnydd o ran medrau disgyblion.

Dylai awdurdodau lleol:

A6 wella'r cymorth a roir i ysgolion:

- i gynllunio cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau, gan ddechrau drwy gynllunio ar gyfer dilyniant mewn llythrennedd a rhifedd; ac
- i asesu ac olrhain datblygiad medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A7 ddiwygio'r Fframwaith Sgiliau er mwyn iddo ddarparu man cychwyn mwy effeithiol i ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau a dull ysgol gyfan o asesu ac olrhain datblygiad medrau disgyblion.

Cyd-destun

15 Llunnir yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yng nghylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2010-2011. Mae'r adroddiad yn arfarnu pa mor dda mae ysgolion cynradd yng Nghymru'n defnyddio'r Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 2 i gynllunio a gwella'r modd y caiff medrau disgyblion eu datblygu.

16 Mae'r adroddiad:

- yn arfarnu effeithiolrwydd dulliau ysgol gyfan o ddatblygu cydlyniad, parhad a dilyniant darpariaeth yn yr ystod lawn o fedrau a nodir yn y Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 2;
- yn arfarnu sut mae cyflwyno'r Fframwaith Sgiliau wedi effeithio ar addysgu a dysgu ac asesu yng nghyfnod allweddol 2;
- yn nodi astudiaethau achos arfer dda; ac
- yn gwneud argymhellion am ddatblygiadau'r dyfodol.

17 Bwriedir yr adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, uwch reolwyr a staff yng nghyfnod allweddol 2, a swyddogion ac ymgynghorwyr awdurdodau addysg lleol. Efallai bydd yr adroddiad o ddiddordeb hefyd i sefydliadau sy'n hyfforddi athrawon ac i awdurdodau esgobaethol eglwysi.

18 Yn ôl 'Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003' roedd cyflogwyr yng Nghymru'n pryderu am fylchau medrau cyflogeion. Diffyg medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu oedd y broblem fwyaf cyffredin a nodwyd, ac wedyn medrau cyfathrebu a gallu'r cyflogai i ddangos menter, datrys problemau a gweithio'n annibynnol gan ddefnyddio medrau trosglwyddadwy.

19 Yn 'Adolygiad o'r Cwricwlwm Ysgol a Threfniadau Asesu 5-16' (ACCAC, 2004), dywedodd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru y dylai fod cwricwlwm wedi'i ddiwygio'n sylweddol a oedd yn canolbwyntio ar y dysgwr ac ar fedrau i sicrhau bod gan ddysgwyr fedrau trosglwyddadwy.

20 Yn nogfen Estyn, 'Trawsnewid Ysgolion: papur trafod' (Estyn, 2007), galwyd hefyd am adolygu strwythur caeth y cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar bynciau ac argymhellwyd bod ysgolion:

- yn datblygu medrau meddwl a dysgu disgyblion ac yn eu gwneud yn ganolog i bob cynllun gwers; ac
- yn cyflwyno ffocws ar fedrau yn rhan o ddull ysgol gyfan o gynllunio'r cwricwlwm.

21 Yn 2008, cyhoeddwyd y Fframwaith Sgiliau gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS). Ni fwriedir i'r Fframwaith Sgiliau fod yn fframwaith cwricwlwm, ond yn hytrach yn sail i gynllunio ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, holl Orchmynion Pwnc Cwricwlwm Cenedlaethol 2008, a'r fframweithiau ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, gyrfaoedd a'r byd gwaith, ac addysg grefyddol.

22 Mae'r Fframwaith Sgiliau yn rhoi arweiniad ar gynllunio er parhad a dilyniant ar draws y pedair prif ffrwd, sef meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif. Mae'n pwysleisio bod medrau'n datblygu mewn patrwm cylchol nid llinol a bod medrau'n cael eu datblygu drwy gymhlethu gweithgareddau a chynyddu'r her mewn tasgau yn raddol.

23 Mae 'Manteisio i'r eithaf ar ddysgu – Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig' (APADGOS 2008) yn rhoi cymorth ac arweiniad pellach i ysgolion ar sut i weithredu'r Fframwaith Sgiliau ochr yn ochr â Gorchmynion Pwnc newydd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r ddogfen yn ailadrodd nodau'r cwricwlwm newydd sef:

- canolbwyntio ar y dysgwr;
- sicrhau bod datblygiad medrau priodol yn cael ei ymgorffori drwy'r cwricwlwm;
- canolbwyntio ar barhad a dilyniant i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed; a
- chynnig llai o gynnwys pwnc ond canolbwyntio mwy ar fedrau.

24 Mae 'Manteisio i'r eithaf ar ddysgu' yn rhoi enghreifftiau o'r ffyrdd amrywiol y gallai ysgolion ddewis cynllunio at y cwricwlwm newydd. Mae'r Fframwaith Sgiliau'n pwysleisio mai'r ysgolion sy'n penderfynu sut byddant yn rhoi'r cwricwlwm diwygiedig ar waith. Fodd bynnag, y gobaith yw y bydd y Fframwaith Sgiliau yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol a fframweithiau eraill i helpu'r broses gynllunio ac, o ran y Fframwaith Sgiliau, awgrymir "yn wir, efallai mai fel man cyfeirio cyntaf y gallai'r ddogfen fod ar ei mwyaf effeithiol".

25 Mae 'Manteisio i'r eithaf ar ddysgu' hefyd yn nodi bod dull ysgol gyfan o gynllunio a darparu cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau yn hanfodol bwysig i'w lwyddiant. Mae'n awgrymu y dylai un uwch arweinydd mewn ysgol fod yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm diwygiedig sy'n seiliedig ar fedrau.

1 Cynllunio'r cwricwlwm

Deall a chymhwyso'r Fframwaith Sgiliau

26 Dim ond yn ddiweddar y mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dechrau cynllunio ar gyfer dilyniant o ran datblygu medrau disgyblion fel y nodir yn y Fframwaith Sgiliau. Nid yw'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgol yn deall pam y datblygwyd y Fframwaith Sgiliau na sut y gellir ei ddefnyddio yn sail i gynllunio'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae llawer ohonynt yn ansicr ynghylch y ffordd fwyaf effeithiol o integreiddio medrau wrth gynllunio i sicrhau dilyniant o ran dysgu disgyblion, ac yn ansicr ynghylch manteision gwneud hynny.

27 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio Gorchmynion Pwnc 2008 yn fan cychwn i gynllunio'r cwricwlwm. Mae'r mwyafrif yn cyfeirio wedyn at y Fframwaith Sgiliau am arweiniad pellach ar olrhain medrau a ddysgwyd. Mae'n dipyn o her i ysgolion ddeall y dylai medrau fod yn fan cychwyn i gynllunio'r cwricwlwm yn hytrach na rhywbeth i'w ychwanegu at gynlluniau gwaith presennol.

28 Ychydig iawn o ysgolion yn unig sydd wedi defnyddio'r Fframwaith Sgiliau yn fan cyfeirio cyntaf wrth gynllunio ymagwedd ysgol gyfan at gynlluniau gwaith ac at ddatblygu medrau'n gynyddol. Yn rhy aml, mae athrawon yn parhau i gynllunio'r cwricwlwm yn bynciau ar wahân heb roi digon o sylw i'r ffordd y gall pynciau, fel hanes neu ddaearyddiaeth, gefnogi a darparu cyd-destun i ddatblygu medrau fel llythrennedd a rhifedd. Nid ydynt yn cydnabod yn llawn y dylai medrau fel llythrennedd a rhifedd ffurfio'r elfennau trefnu craidd a'r asgwrn cefn i'w cynlluniau gwaith. Er bod hyn yn rhannol oherwydd diffyg eglurder ynghylch statws anstatudol y fframwaith, mae'n digwydd yn bennaf oherwydd ansicrwydd arweinwyr ynghylch sut i gysoni Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol â'r Fframwaith Sgiliau.

29 Er bod y Fframwaith Sgiliau wedi cynyddu ymwybyddiaeth athrawon o ba mor bwysig yw gwella medrau disgyblion, nid yw'n eu cyfarwyddo'n ddigon clir na manwl sut y dylent gynllunio a chyflenwi cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn ansicr ynghylch sut i gyfuno Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith Sgiliau. O ganlyniad, nid yw athrawon yn cynllunio i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd priodol a digon heriol i gyfnerthu, cymhwyso ac estyn eu medrau cyfathrebu a rhif ar draws y cwricwlwm. Dywedodd un athro:

"Rwy'n teimlo fel petawn i'n cynllunio tuag yn ôl. Rwy'n gwneud fy nghynlluniau cyn troi at y Fframwaith Sgiliau i weld sut maen nhw'n cyfateb er mwyn i mi allu ychwanegu'r symbolau. Nid yw'r Fframwaith Sgiliau yn effeithio ar fy addysgu. Y cyfan mae angen i mi ei wneud yw profi fy mod wedi rhoi sylw iddo."

30 Mewn ysgol arall, mae athrawon yn defnyddio ystod eang o adnoddau mewnol a chyhoeddedig, yn ogystal â chyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru, i gynorthwyo eu cynlluniau. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn siŵr sut mae'r dogfennau hyn yn cyfuno i gynhyrchu ymagwedd gydlynol, gyson at gynllunio datblygiad medrau disgyblion.

31 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cydlynydd dynodedig yn goruchwylio'r gwaith o weithredu cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau. Mae cyfarwyddyd APADGOS ar sut i weithredu'r Fframwaith Sgiliau ochr yn ochr â Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol yn argymell y dylai uwch arweinydd fod yn gyfrifol am ei weithredu. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ysgolion sydd wedi rhoi'r cyfrifoldeb hwn i uwch arweinydd.

32 Yn yr ychydig ysgolion lle mae cwricwlwm effeithiol yn seiliedig ar fedrau, mae gan yr uwch arweinwyr weledigaeth strategol dda ac maent yn deall diben ac egwyddorion y Fframwaith Sgiliau yn dda. Mae llawer o'r ysgolion hyn bellach wrthi'n meithrin hyder a gallu'r staff i ddefnyddio'r Fframwaith Sgiliau yn sail i'w cynllunio, addysgu a dysgu.

33 Os nad yw arweinwyr yn llwyr ddeall yr hyn maent yn ceisio ei gyflawni, mae staff yn aml yn ansicr ynghylch pam mae angen iddynt newid eu ffordd o gynllunio. O ganlyniad, mae athrawon yn mapio'r medrau sy'n cael sylw yn lle creu cyfleoedd i addysgu medrau y gellir eu cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau. Mae cynllunio sylw i fedrau yn y modd hwn yn golygu nad yw llawer o ddisgyblion yn caffael medrau ar y lefel briodol cyn bod angen iddynt gymhwyso'r medrau hyn. Er enghraifft, mewn un wers gwyddoniaeth a arsylwyd, roedd angen i ddisgyblion mewn dosbarth Blwyddyn 6 greu tablau a graffiau i ddangos nifer yr ysmygwyr yng Nghymru dros y ddeng mlynedd ddiwethaf. Er bod y disgyblion yn gallu deall yr wybodaeth, ni addysgwyd yn flaenorol iddynt y medrau mathemategol sydd eu hangen i lunio'r graffiau ac nid oeddent yn gallu cwblhau'r dasg.

34 Yn yr ychydig achosion lle mae ysgolion yn cynllunio cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau yn effeithiol, mae'r athrawon yn cydweithio i gynllunio ar draws pob grŵp blwyddyn ac yn targedu datblygiad medrau penodol a addysgir drwy bynciau neu themâu. Yn yr ysgolion hyn, mae'r athrawon yn gwybod am ddatblygiad medrau blaenorol y disgyblion a'r medrau newydd y mae angen eu haddysgu er mwyn iddynt wneud cynnydd. Er enghraifft, maent yn sicrhau yr addysgir y medrau angenrheidiol i ddisgyblion cyn gofyn iddynt eu cymhwyso i amrywiaeth o gyd-destunau a phynciau, neu maent yn creu cyfleoedd i ddisgyblion gaffael y medrau o fan cychwyn isel yn y cyd-destun. Yn yr ysgolion hyn, mae'r athrawon a'r disgyblion yn aml wedi canfod ymagwedd gyffredin ac iaith gyson i drafod meddwl a dysgu. Defnyddiant amrywiaeth o derminoleg berthnasol i drafod y medrau sydd eu hangen yn ystod gweithgaredd a sut byddant yn defnyddio'r medrau hyn yn fwyaf effeithiol. Mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn hyfforddiant APADGOS yn defnyddio adnoddau ategol yn dda. Defnyddir adnoddau fel posteri sy'n cael eu harddangos mewn ystafelloedd dosbarth yn fan cyfeirio pan fydd athrawon yn cyflwyno tasgau a phan fydd disgyblion yn myfyrio ar eu dysgu a'r broses ddysgu.

Cymorth a hyfforddiant

35 Mae awdurdodau lleol wedi rhoi cymorth ac arweiniad effeithiol i'w hysgolion ar sut i weithredu Gorchmynion Pwnc ar gyfer Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig 2008. Fodd bynnag, ni roddwyd cymorth yr un mor effeithiol i'r ysgolion ddefnyddio'r Fframwaith Sgiliau fel sail i'w cynlluniau ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol.

36 Bu ansawdd y cymorth a gafodd ysgolion ar sut i ddefnyddio'r Fframwaith Sgiliau yn rhy amrywiol. Nid yw pob ymgynghorydd awdurdod lleol yn deall sut y gellir

defnyddio'r Fframwaith Sgiliau i ddatblygu, monitro ac asesu medrau ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, bu gwahaniaeth barn am egwyddorion sylfaenol cwricwlwm yn seiliedig ar fedrau rhwng awdurdodau lleol a hefyd rhwng ysgolion yn yr un awdurdod.

37 Ar y cyfan, nid yw awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant a chyfarwyddyd yn ddigon effeithiol i gyflenwi ac asesu cynnydd disgyblion drwy fframwaith sy'n seiliedig ar fedrau. Mae'r hyfforddiant a ddarperir yn aml yn rhy generig ac nid yw'n ystyried yn ddigonol wahanol gyfnodau datblygiad ysgolion o ran rhoi'r cwricwlwm yn seiliedig ar fedrau ar waith. O ganlyniad, mae llawer o ysgolion yn teimlo eu bod yn gweithio ar eu pen eu hunain wrth ddatblygu cwricwlwm seiliedig ar fedrau a systemau i asesu medrau dysgwyr. Mae'r diffyg cydlynu hwn a'r diffyg gwaith partneriaeth ymhlith awdurdodau lleol a'u consortia yn golygu bod gwahanol ysgolion yn dyblygu gweithgarwch ac ymdrech heb fod eisiau.

38 Mewn rhyw hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy, mae aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant awdurdod lleol neu APADGOS ar sut i weithredu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Ym mron pob ysgol, mae'r athro a fynychodd y cwrs wedi lledaenu'r wybodaeth i'r holl staff addysgu ac wedi cynnal gweithdai mewnol ar sut i ddatblygu medrau meddwl. Yn yr arfer orau, mae hyn wedi helpu i ymgorffori dull cysonach o addysgu a datblygu medrau meddwl disgyblion ac wedi rhoi pecyn cymorth defnyddiol o weithgareddau i'r staff. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ysgolion yn ystyried bod gweithgareddau meddwl yn weithgareddau untro ar ddechrau neu ddiwedd pwnc yn hytrach na rhan annatod o addysgu a dysgu rheolaidd. Nid oes digon o ysgolion yn cysylltu gweithgareddau meddwl disgyblion â ffrwd feddwl y Fframwaith Sgiliau. O ganlyniad, collir cyfleoedd i estyn medrau meddwl disgyblion drwy gynyddu cymhlethdod y gweithgareddau a'r her mewn tasgau. Er enghraifft, prin y gofynnir i ddisgyblion ddod i gasgliadau, dadansoddi a chymathu gwybodaeth, meddwl yn rhesymegol a chwilio am batrymau, gwneud cysylltiadau neu feddwl yn ddargyfeiriol.

39 Mae llawer o awdurdodau lleol wedi ffurfio gweithgorau gyda grwpiau dethol o athrawon a swyddogion awdurdod lleol i gynhyrchu 'grisiau medrau' sy'n benodol i bwnc.[3] Mae ambell awdurdod lleol wedi prynu grisiau medrau a gynhyrchwyd yn fasnachol i ysgolion, yn seiliedig ar Orchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r grisiau medrau masnachol hyn yn aml yn becynnau trwm, cymhleth ac mae athrawon yn ei chael yn anodd eu haddasu ar gyfer cynllunio tymor canolig a dyddiol.

40 Mae ESIS (consortiwm gwella ysgolion yn ne-ddwyrain Cymru) wedi cynhyrchu dogfen gynhwysfawr sy'n galluogi ysgolion i arfarnu eu cwricwlwm cyfredol a chynllunio ar gyfer cwricwlwm yn seiliedig ar fedrau, ar sail egwyddorion y Fframwaith Sgiliau. Mae gan ysgolion sy'n defnyddio'r ddogfen hon gyfarwyddyd a chymorth effeithiol iawn i gynllunio cwricwlwm yn seiliedig ar fedrau.

41 Mae bron pob ysgol wedi defnyddio diwrnodau hyfforddiant a sesiynau ar ôl yr ysgol i hybu ymwybyddiaeth staff am y cwricwlwm yn seiliedig ar fedrau. Ar ôl y sesiynau hyfforddiant cychwynnol, bu staff yn cydweithio i ddiwygio cynlluniau gwaith a dogfennau cynllunio eraill. Fodd bynnag, gan nad yw athrawon yn llwyr ddeall natur

[3] Mae 'grisiau medrau' yn nodi beth yw cynnydd mewn medr yn ymarferol, gam wrth gam.

cwricwlwm yn seiliedig ar fedrau, treuliant ormod o amser yn paru symbolau neu eiriau allweddol o'r Fframwaith Sgiliau â chynlluniau cwricwlwm presennol.

42 Mae'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn yr arolwg hwn, a fu'n datblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau cyn diwygiadau cwricwlwm mis Medi 2008, wedi buddsoddi'n helaeth er mwyn i'r holl staff ddod i ddeall sut mae oedolion yn ogystal â phlant yn meddwl ac yn dysgu. Mae llawer ohonynt wedi cyflwyno darparwyr allanol i hyfforddi staff ar ddamcaniaethau dysgu a meddwl allweddol yn rhan o raglen yr ysgol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Anogir aelodau o staff wedyn i sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol i rannu arfer dda â staff eraill yn yr ysgol neu ar draws ysgolion. Yn y cymunedau dysgu hyn, mae'r staff yn cydweithio'n dda i ymchwilio i weithgareddau sy'n helpu disgyblion i gymhwyso ac estyn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau ar draws pob maes o'r cwricwlwm, ac i gynllunio'r gweithgareddau hyn.

Goblygiadau ariannol

43 Dywedodd ryw hanner yr ysgolion yn yr arolwg eu bod wedi defnyddio rhan helaeth o'u cyllideb ysgol i ariannu cyflwyno cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau. Gwariwyd y mwyafrif i ryddhau athrawon i gynllunio ac i brynu adnoddau TGCh ychwanegol. Dywedodd ambell bennaeth nad oedd digon o gyllid i ysgolion gyflwyno cwricwlwm newydd yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mewn ysgolion lle mae gan yr arweinwyr weledigaeth strategol glir i ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau, nid oedd diffyg cyllid yn eu rhwystro'n sylweddol rhag ei weithredu. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio eu harbenigedd mewnol eu hunain i hyfforddi staff ac i ddefnyddio'r adnoddau sydd ganddynt yn effeithiol.

44 Roedd yr holl ysgolion yn yr arolwg yn defnyddio cyfran fawr o'u Cyllid Ysgolion Gwell i gefnogi cyflwyno Gorchmynion Pwnc diwygiedig 2008 dryw ryddhau staff i gynllunio a hyfforddi. Fodd bynnag, prin iawn oedd yr ysgolion a fu'n defnyddio'r arian hwn i gynllunio at y Fframwaith Sgiliau neu ei weithredu.

45 Mae lleiafrif o ysgolion wedi gwario symiau sylweddol ar brynu cynlluniau gwaith cyhoeddedig ac adnoddau eraill. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth fod y pecynnau hyn yn helpu i gynhyrchu safonau uwch o waith neu wella ansawdd addysgu. Yn aml, gall fod yn fwy effeithiol defnyddio arbenigedd a medrau presennol a chyfunol athrawon mewn consortia ac ysgolion awdurdod lleol. Er enghraifft, mae athrawon yn canolbwyntio'n fwy ar ddatblygu'r medrau penodol yn y Fframwaith Sgiliau, tra bo'r adnoddau cyhoeddedig yn fwy generig er mwyn apelio at farchnad ehangach.

Gweithio mewn clystyrau

46 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gweithio'n dda gydag ysgolion eraill yn eu clwstwr i ddatblygu cwricwlwm sy'n fwy seiliedig ar fedrau. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu grisiau medrau a phortffolios asesu ar y cyd, rhannu gwaith cynllunio a mynychu digwyddiadau hyfforddi ar y cyd. Er i'r rhan fwyaf o'r cydweithio hwn ganolbwyntio ar fedrau mewn pynciau yn hytrach na chanolbwyntio ar ddatblygu medrau cyfathrebu, TGCh neu rif, cafwyd gwaith defnyddiol ar ddatblygu ymagweddau cyson at feddwl ar draws clystyrau. Yn yr arfer orau, cytunir ar yr ymagweddau cyffredin i sicrhau parhad a dilyniant wrth ddatblygu medrau disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod

allweddol 3. Drwy ei 'Gwrs Addysgeg Sgiliau Meddwl', mae Cynnal wedi cefnogi ysgolion yn Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy i ddatblygu eu hymagweddau at feddwl ac asesu ar gyfer dysgu. Mae ymgynghorwr addysgeg yn cefnogi ymgynghorwyr pwnc pan fyddant yn cynllunio cyrsiau ac yn amlygu cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm. Yn yr awdurdodau lleol hyn, mae amrywiaeth dda o adnoddau ar gael i ysgolion ar y we.

2 Asesu ac olrhain

47 Olrhain medrau disgyblion yw un o'r agweddau gwannaf ar ddarpariaeth yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn yr arolwg hwn. Nid yw athrawon yn gwybod pa mor dda y gall disgyblion ddefnyddio a chymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm ac felly nid ydynt yn cynllunio gwaith sy'n briodol o heriol iddynt. O ganlyniad, nid llawer o ddisgyblion sy'n gwneud digon o gynnydd mewn defnyddio a chymhwyso eu medrau meddwl, cyfathrebu, TGCh neu rif.

48 Nid oes yr un ysgol yn yr arolwg wedi datblygu system ysgol gyfan i olrhain canlyniadau disgyblion unigol yn y medrau anstatudol mewn perthynas â'r Fframwaith Sgiliau. Mae un ysgol wrthi'n profi system mewn un grŵp blwyddyn i roi gwybod am lefel cyrhaeddiad pob disgybl ym mhob ffrwd o'r Fframwaith Sgiliau, ond nid yw'n amlwg sut bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wella canlyniadau disgyblion.

49 Mae lleiafrif o ysgolion yn defnyddio system goleuadau traffig i olrhain cyflawniad carfan o ddisgyblion mewn perthynas â ffrydiau yn y Fframwaith Sgiliau. Er enghraifft, mae un ysgol yn defnyddio'r dangosyddion canlynol: coch – heb eu gweithredu; ambr – wedi'u gweithredu'n rhannol, ond heb eu cymhwyso'n llawn na'u defnyddio'n annibynnol gan fwyafrif y disgyblion; a gwyrdd – wedi'u gweithredu'n llawn gyda llawer o'r plant yn cymhwyso'r medr yn annibynnol. Yn yr ysgol hon, defnyddir y wybodaeth hon i lywio'r cyfnod nesaf o gynllunio dosbarth cyfan, ond nid yw'n cael ei defnyddio i gynllunio gweithgareddau gwahaniaethol neu bersonoledig sy'n canolbwyntio ar fedrau i wahanol ddysgwyr.

50 Mae ambell ysgol yn ystyried defnyddio pecyn cyhoeddedig i olrhain cyflawniad disgyblion mewn medrau penodol i bwnc ac yn y medrau ehangach. Fodd bynnag, nid yw'r ysgolion hyn yn bwriadu olrhain cyrhaeddiad gwahanol ddisgyblion mewn perthynas â'r Fframwaith Sgiliau.

51 Cred llawer o benaethiaid fod cynnydd disgyblion mewn cyfathrebu, TGCh a rhif yn cael ei olrhain yn ddigonol drwy systemau olrhain presennol yr ysgol mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a TGCh. Nid ydynt yn deall mor bwysig yw cymhwyso medrau fel llythrennedd a rhifedd mewn pynciau fel hanes neu ddaearyddiaeth.

3 Addysgu a dysgu

52 Yn rhyw hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn rhan o'r arolwg hwn, ni chaiff y disgyblion ddigon o gyfle i ddefnyddio a datblygu eu medrau rhif, darllen ac ysgrifennu estynedig ar draws pob rhan o'r cwricwlwm. Yn arbennig, nid oes digon o ysgolion yn addysgu darllen yn fedr lefel uchel yng nghyfnod allweddol 2.

53 Yn yr ychydig enghreifftiau o arfer dda a arsylwyd, roedd yr athrawon yn canolbwyntio'n gyson ar ddatblygu medrau disgyblion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Roedd y gwersi'n canolbwyntio'n benodol ar addysgu medrau newydd a'r disgyblion yn cael gwybod yn glir sut mae'r medrau'n berthnasol i waith cyfredol a gwaith y dyfodol. Bu'r athrawon yn rhannu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant â'r disgyblion ac yn rhoi'r cyfle iddynt drafod y ffordd orau o ddefnyddio'r medrau y maent wedi'u caffael yn barod. Bu'r disgyblion yn arfarnu eu cynnydd yn rheolaidd ac yn myfyrio ar feysydd i'w gwella.

54 Er bod symbolau neu eiconau ar gyfer cyfathrebu, meddwl, TGCh neu rif yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau athrawon yn rhyw hanner y gwersi a arsylwyd, nid yw'r medrau'n cael eu datblygu yn y gwersi a chollir cyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion i lefel uwch na'r medrau sydd ganddynt eisoes.

55 Yn rhan fwyaf yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy, mae cydweithio a gwaith grŵp yn dda erbyn hyn, gan fod ffocws llawer cryfach ar yr agweddau hyn mewn gwersi. Mae disgyblion yn gwrando'n astud ar farn eraill, yn ymateb yn briodol ac yn fodlon chwarae rhannau amrywiol. Fodd bynnag, nid yw gwaith grŵp yn llwyddo cymaint pan nad yw'r athrawon yn dynodi rolau a chyfrifoldebau penodedig cyn dechrau, neu'n addysgu rheolau gweithio mewn grŵp.

56 Dywed yr athrawon yn y rhan fwyaf o ysgolion eu bod yn darparu gweithgareddau penagored sy'n seiliedig ar fedrau er mwyn i'r disgyblion ymateb ar lefel sy'n briodol i'w gallu ac maent yn estyn y dysgwyr mwy galluog drwy ofyn cwestiynau mwy heriol iddynt yn ystod y wers. Fodd bynnag, yn rhyw hanner y sesiynau a arsylwyd ar gyfer yr arolwg hwn, roedd cwestiynau athrawon yn ddigymell ac yn gyffredinol eu natur yn lle bod yn ffrwyth cynllunio gofalus i ddatblygu medrau'r disgyblion ymhellach. Yn rhy aml hefyd, roedd y disgyblion mwy galluog yn cael tasgau a oedd yn rhy hawdd iddynt.

Cynnwys disgyblion i gynllunio eu dysgu eu hunain

57 Mae llawer o ysgolion yn cynnwys disgyblion wrth gynllunio eu thema neu bwnc dosbarth. Anogir y disgyblion i rannu eu gwybodaeth bresennol a'u barn am y thema a gynigir, gan gynnwys am beth yr hoffent gael gwybod, a phenderfynu sut i fynd ati i gasglu gwybodaeth. Mewn mwyafrif o ysgolion, anogir y dysgwyr i gydweithio, gan chwarae gwahanol rannau mewn grŵp, ac maent yn rhydd i ddewis sut maent yn cyflwyno eu gwaith.

58 Os caiff disgyblion eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu dysgu, mae eu lefelau diddordeb yn gwella, yn ogystal â'u cyfranogiad a'r wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth a enillant. Er enghraifft, gofynnwyd i'r disgyblion mewn un ysgol sôn

am wersi a oedd wedi dysgu mwy nag arfer iddynt. Ymhlith eu hatebion, cyfeiriwyd at daith breswyl lle bu'n rhaid iddynt benderfynu beth roeddent am ei astudio. Fe wnaeth hyn gynnwys y disgyblion yn gwneud yr ymchwil cychwynnol, wrth gostio'r daith, wrth gysylltu â sefydliadau, wrth drefnu'r digwyddiad, wrth ysgrifennu at rieni ac wrth ymdrin â'r holl arian. Roedd yn rhaid iddynt roi eu hunain mewn grwpiau a dirprwyo cyfrifoldebau a phenderfynu ar y ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth i weddill y dosbarth. Cytunodd pob disgybl eu bod yn dysgu'n fwyaf effeithiol o gael ei gynnwys wrth benderfynu beth mae'n ei ddysgu, a sut. Yn ôl un disgybl:

"Os ydych am i mi ddysgu, rhowch wersi ymarferol i mi, gan adael i mi ddewis a gwneud pethau. Byddaf yn eu cofio felly".

4 Arfarnu effaith y cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau

59 Yn sgil camddealltwriaeth am ddiben y Fframwaith Sgiliau a sut y dylid ei ddefnyddio i gynllunio dilyniant medrau disgyblion, prin yw ei effaith. Prin yr oedd lleiafrif sylweddol o ysgolion a arolygwyd wedi ystyried y Fframwaith Sgiliau cyn cael gwybod am yr ymweliad oddi wrth Estyn.

60 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, bu cyflwyno'r Gorchmynion Pwnc diwygiedig a chwricwlwm sy'n fwy seiliedig ar fedrau yn ffocws mawr i gynlluniau gwella. Mae ysgolion wedi cyfeirio at y Fframwaith Sgiliau i raddau llai oherwydd ei natur anstatudol ac oherwydd diffyg cyfarwyddyd clir ar sut i'w ddefnyddio'n effeithiol yn fan cyfeirio cyntaf wrth gynllunio.

61 Rodd bron pob ysgol a gymerodd ran yn yr adroddiad cylch gwaith hwn wedi cynnwys datblygu medrau meddwl yn rhan o'i chynllun gwella ysgol. Er ei fod yn bwysig, mae'r ffocws hwn weithiau ar draul y medrau eraill a nodwyd yn y Fframwaith Sgiliau, fel cyfathrebu a rhif.

62 I ryw raddau, mae pob ysgol wedi arfarnu effaith ei chamau cynlluniedig ac wedi cyfrannu'r arfarniadau hyn at y cylch nesaf o gynlluniau datblygu ysgol. Mae ansawdd yr arfarniadau hyn yn amrywio gormod. Mewn ambell ysgol, mae uwch arweinwyr yn deall egwyddorion y Fframwaith Sgiliau yn dda a bellach yn bwriadu magu hyder athrawon i'w ddefnyddio yn fan cyfeirio cyntaf wrth ddiwygio eu cynlluniau.

63 Mae tua hanner y 73 ymatebydd i'r holiadur yn nodi mai ym mhynciau craidd Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ac ym mhynciau sylfaen hanes a daearyddiaeth y mae'r Fframwaith Sgiliau wedi cael yr effaith fwyaf. Mae ysgolion yn ystyried bod y pynciau hyn yn fwy addas i ddull dysgu sy'n seiliedig ar fedrau. Dywedodd yr hanner arall fod y Fframwaith Sgiliau yn cael yr un effaith ar bob pwnc. Mae llawer o'r ysgolion hyn yn priodoli hyn i'w hymagwedd ysgol gyfan at roi sylw i ofynion y Fframwaith Sgiliau gyda medrau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif yn treiddio i holl feysydd y cwricwlwm. Dengys tystiolaeth o'r arolwg fod medrau meddwl a'r medrau penodol i bwnc mewn llefaredd a TGCh yn cael eu defnyddio'n dda yn y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd a gynllunnir i ddisgyblion wneud cynnydd yn eu medrau rhif, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Atodiad 1

Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar:

- ymweliadau gan arolygwyr â sampl gynrychioliadol o 21 o ysgolion cynradd neu iau ledled Cymru a arolygwyd gan Estyn yn 2008-2009. Bu'r arolygwyr yn cyfweld ag uwch arweinwyr ac athrawon, yn arsylwi dwy wers ym mhob ysgol, yn craffu ar ddogfennau a chynlluniau, yn siarad â grŵp o ddysgwyr ac, fel rheol, yn siarad ag ymghynghorydd awdurdod lleol;
- holiaduron a lenwyd gan 73 o ysgolion cynradd neu iau a arolygwyd yn ystod yr un cyfnod; a
- holiaduron a ddychwelwyd gan swyddogion o 11 allan o'r 22 awdurdod lleol.

Yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r adroddiad cylch gwaith hwn oedd:

Ysgol Gynradd Ynys y Barri, Bro Morgannwg
Ysgol Caer Derwyn, Sir Ddinbych
Ysgol Gynradd Coed-y-Garn, Blaenau Gwent
Ysgol Iau Crynallt, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Dyffryn Ardudwy, Gwynedd
Ysgol Eglwys Bach, Conwy
Ysgol Gynradd Glais, Abertawe
Ysgol Gynradd Griffithstown, Torfaen
Ysgol Gynradd Gymunedol Holt, Wrecsam
Ysgol Gynradd Kymin View, Sir Fynwy
Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes, Powys
Ysgol Iau Neyland, Sir Benfro
Ysgol Penlon, Ceredigion
Ysgol Rhys Pritchard, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Gynradd Trefgwilym, Casnewydd
Ysgol Gynradd Penygawsi, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Saltney Ferry, Sir y Fflint
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gynradd Thornhill, Caerdydd
Ysgol Gynradd Ystrad Mynach, Caerffili
Ysgol y Parch. Thomas Ellis, Ynys Môn

Atodiad 2

Astudiaeth Achos 1

Ysgol Gynradd Ynys y Barri, Bro Morgannwg

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Ynys y Barri'n gwasanaethu cymuned Ynys y Barri ym Mro Morgannwg. Ar hyn o bryd, mae 220 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae 20.5% o'r disgyblion hyn yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Strategaeth

Mae gan Ysgol Gynradd Ynys y Barri bolisi medrau y cytunwyd arno gan yr holl staff. Mae uwch arweinwyr yn yr ysgol yn monitro cymhwyso'r polisi ac yn sicrhau bod yr athrawon yn cyflenwi'r Fframwaith Sgiliau mewn modd cyson.

Gweithred

Mae'r ysgol wedi newid ei hamserlen i ganolbwyntio ar addysgu pynciau craidd mewn blociau amser sylweddol. Mae hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn cael o leiaf ddeuddydd yr wythnos i ymgolli mewn pynciau a chymhwyso'r medrau maent wedi'u caffael.

Bu'r ysgol yn rhan o gymuned ddysgu broffesiynol er 2005 ac ynghyd â'i phartneriaid mae wedi buddsoddi'n helaeth mewn offer TGCh. Mae'r ysgol wedi sefydlu rhith gymuned ddysgu neu gymuned ddysgu electronig ac mae'n addysgu medrau TGCh newydd i ddisgyblion yn rheolaidd. Mae pob disgybl yn defnyddio technoleg yn rhan o'i weithgareddau dysgu dyddiol.

Mae'r arweinwyr yn yr ysgol yn mynd ati i sefydlu amgylchedd dysgu ac yno'n ceisio canfod barn y disgyblion a gweithredu yn ei chylch.

Canlyniadau

O ganlyniad i ganolbwyntio ar gwricwlwm yn seiliedig ar fedrau, mae'r disgyblion:

- yn arddangos lefelau uchel o fedrau dysgu annibynnol a rhyngddibynnol;
- yn cyflawni safonau rhagorol o fedrau TGCh ar draws yr ysgol; ac
- yn ddysgwyr hyderus, sy'n gallu cynllunio eu gweithgareddau dysgu eu hunain ac asesu pa mor dda maent wedi defnyddio eu medrau.

Astudiaeth achos 2

Ysgol Gynradd Glais, Abertawe

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Glais ym mhentref Glais ym mhen deheuol Cwm Abertawe. Ar hyn o bryd, mae 105 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae 1% o'r disgyblion hyn yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim.

Strategaeth

Mae gan yr holl staff yn Ysgol Gynradd Glais ddealltwriaeth ar y cyd o'r athroniaeth a'r egwyddorion sy'n sail i'r Fframwaith Sgiliau.

Gweithred

Mae datblygiad staff cyfan dros yr wyth mlynedd ddiwethaf wedi canolbwyntio ar ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan at addysgu meddwl a dysgu.

Mae dull cyson ar draws yr ysgol o gynllunio ac addysgu medrau sy'n benodol i bwnc ac sy'n drosglwyddadwy. Mae'r pennaeth a'r arweinwyr pwnc i gyd yn rhan o weithdrefnau monitro'r ysgol. Rhennir y canlyniadau monitro â'r holl staff.

Caiff pob athro newydd gyfleoedd yn yr amserlen i arsylwi staff sydd wedi hen arfer ag addysgu a chyfle i hyfforddi yn ymagwedd yr ysgol at addysgeg.

Canlyniadau

O ganlyniad i ganolbwyntio ar gwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau, mae'r disgyblion:

- yn cyfathrebu'n fwy hyderus ac yn fwy effeithiol;
- yn rhannu syniadau, yn gwneud eu hymchwil eu hunain, ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd yn dda;
- yn cael eu cynnwys yn llawn yn eu dysgu, gan ennyn eu diddordeb yn llawn;
- yn deall eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain; ac
- yn cymhwyso amrywiaeth o fedrau priodol i wahanol gyd-destunau.

Astudiaeth achos 3

Ysgol Gynradd Ystrad Mynach, Caerffili

Cyd-destun

Agorodd Ysgol Gynradd Ystrad Mynach ym mis Medi 2006, o ganlyniad i gyfuno Ysgol Babanod Ystrad Mynach ac Ysgol Iau Ystrad Mynach. Mae'r ysgol ar gyrion Ystrad Mynach, sef tref fechan i'r gogledd o Gaerffili. Ar hyn o bryd, mae 409 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae 11.8% o'r disgyblion hyn yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim.

Strategaeth

Cyflwynodd y pennaeth newydd gwricwlwm yn seiliedig ar fedrau pan gafodd ei phenodi ym mis Ebrill 2010 er mwyn gwella, yn arbennig, gyrhaeddiad y bechgyn nad oeddent yn canolbwyntio mewn gwersi ac nad oedd diddordeb ganddynt mewn dysgu.

Gweithred

I raddau amrywiol, roedd y staff yn deall y bwriadau dysgu, y meini prawf llwyddiant, sut i gynnwys disgyblion yn eu dysgu eu hunain, a sut i herio disgyblion mwy galluog. Yn y cyfnod ers ei phenodi, bu'r pennaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y staff am y Fframwaith Sgiliau a strategaethau asesu ar gyfer dysgu.

Canlyniadau

O ganlyniad i gyflwyno cwricwlwm yn seiliedig ar fedrau:

- mae'r disgyblion yn fwyfwy ymwybodol o'r medrau y mae angen iddynt eu dysgu ac mae bron pob disgybl yn canolbwyntio mewn gwersi;
- mae athrawon yn rhannu bwriadau dysgu ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion gael eu cynnwys mewn ymchwil a gweithgareddau grŵp; ac
- mae'r bechgyn yn datblygu i fod yn ddysgwyr brwdfrydig ac yn siarad yn fywiog am eu gwaith.

Astudiaeth achos 4

Awdurdod lleol Wrecsam – Cwrs dysgu effeithiol traws-gyfnod

Cyd-destun

Mae Wrecsam yng ngogledd ddwyrain Cymru ac mae'n rhannu ffiniau â Sir y Fflint i'r gogledd orllewin, Sir Ddinbych i'r gorllewin, Powys i'r de a Lloegr i'r dwyrain. Cyfanswm y boblogaeth yw 133,207. Canran disgyblion Wrecsam o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 19%, sy'n debyg i'r ffigwr cenedlaethol.

Strategaeth

Roedd yr awdurdod lleol am hyrwyddo cydweithio ac annog gwell dealltwriaeth o ddysgu yn seiliedig ar fedrau.

Gweithred

Mae'r awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant i ddau athro o bob ysgol; dylai un o'r rhain fod yn gyfrifol am arwain a bod yn gyfrifol am ddatblygu addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn mynychu'r cwrs gyda chydweithwyr cynradd ac uwchradd o'u clwstwr, gan eu cefnogi i ddatblygu cymunedau dysgu proffesiynol i rannu arfer dda a chytuno â'u hysgol uwchradd fwydo ar ddull cyffredin yn seiliedig ar fedrau.

Nod y cwrs yw:

- codi safonau cyflawniad disgyblion a hyrwyddo ansawdd uchel o ddysgu ac addysgu mewn ysgolion;
- sicrhau bod yr addysgu a gaiff y dysgwyr a'r dysgu a wnânt yn effeithio'n gadarnhaol ac yn barhaus ar eu canlyniadau ac ar eu lles;
- cefnogi'r broses o greu gweledigaeth gyffredin o addysgu llwyddiannus a dysgu effeithiol, ac addysgeg gyffredin sy'n seiliedig ar fedrau;
- galluogi dysgwyr i ganolbwyntio'n well, i fod yn fwy effeithiol ac uwch eu cymhelliant ac felly cyflawni gwell canlyniadau;
- annog athrawon i siarad am arfer dda addysgeg, yr elfennau sy'n angenrheidiol i addysgu'n effeithiol a dysgu'n llwyddiannus, a sut mae'r elfennau hyn yn rhyngweithio; a
- datblygu geirfa gyffredin i alluogi ymarferwyr i drafod ar draws pob sector, safle a chyfnod.

Gofynnir i athrawon weithredu'r strategaethau ac ymchwilio i'w heffeithiolrwydd o ran codi cyrhaeddiad disgyblion. Rhoir gwybod am ganlyniad eu hymchwil i gydweithwyr yn yr ysgol ac yn y cwrs dilynol. Mae pennaeth pob ysgol yn cael copi o darged dysgu personol pob athro, y mae wedi cytuno arno â'r arweinydd cwrs. Disgwylir i'r pennaeth fonitro'r cam a gymerwyd gan yr aelod o staff a sicrhau bod y strategaethau a ddysgwyd ar y cwrs yn cael eu hymgorffori mewn arfer ystafell ddosbarth. Mae'n ofynnol i bob athro sydd newydd gymhwyso a benodir i ysgolion Wrecsam fynychu'r cwrs hwn.

Canlyniadau

O ganlyniad i'r hyfforddiant, mae gwelliannau'n cynnwys:

- ymagwedd gyffredin at addysgu a dysgu yn seiliedig ar fedrau ym mhob ysgol yn y clwstwr;
- gwell parhad a dilyniant mewn medrau meddwl disgyblion, yn arbennig yn y cyfnod pontio rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3;
- gwell cyflawniad gan ddisgyblion; a
- datblygu ysgolion yn gymunedau dysgu proffesiynol.

Astudiaeth achos 5

Ysgol Gynradd Gymunedol Holt, Wrecsam

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Holt ym mhentref Holt yng ngororau Cymru, ger Wrecsam. Ar hyn o bryd, mae 83 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae 14.8% o'r disgyblion hyn yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim.

Strategaeth

Drwy brosiect cydweithio 'Ysgolion bychain' a sefydlwyd yn 2006, mae'r ysgol hon, ynghyd â'i phartneriaid, wedi datblygu cwricwlwm sy'n cysylltu'r medrau ehangach â medrau pwnc.

Gweithred

Mae grisiau medrau pwnc, sy'n dangos dilyniant o 'weithio tuag at' (W) i lefel 5 yn cael eu cysylltu â'r medrau ehangach. Mae'r rhain wrthi'n cael eu diweddaru.

Dangosir isod enghraifft o gymhwyso medrau ehangach disgyblion ar lefel 4 o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer dylunio a thechnoleg:

Meddwl	Cyfathrebu	Rhif	TGCh
Rwy'n cymryd amser i ganfod a yw fy nyluniadau'n bodloni anghenion defnyddwyr wrth iddynt symud ymlaen	Rwy'n cyfathrebu fy syniadau a syniadau amgen sy'n dangos fy mod yn ymwybodol o gyfyngiadau fy syniadau i	Rwy'n defnyddio mesuriadau cywir a fy ngwybodaeth am gymhareb i wneud lluniadau wrth raddfa o fy nyluniadi	Rwy'n creu cyflwyniadau amlgyfrwng i arddangos fy nyluniadau neu gynhyrchion
Rwy'n arfarnu fy nghynnyrch neu ddyluniad o hyd i weld beth ellid ei wella	Rwy'n defnyddio testun, diagramau wedi'u labelu ac anodiadau i ddisgrifio fy syniadau	Rwy'n defnyddio fy ngwybodaeth am gyfrannedd i gymysgu cynhwysion, e.e. cacen	Rwy'n ymchwilio i gynhyrchion a defnyddwyr drwy ddefnyddio'r Rhyngrwyd
Rwy'n mireinio ansawdd gorffeniad fy nghynhyrchion	Rwy'n gallu cyflwyno testun darbwyllol am fanteision fy nghynnyrch	Rwy'n defnyddio fy ngwybodaeth am fesur, gan gynnwys arwynebedd a chyfaint, i gyfrifo'r deunyddiau sydd eu hangen am brosiect	Rwy'n defnyddio TGCh i lunio atodlenni gwaith

Canlyniadau

O ganlyniad:

- mae'r ysgol yn deall yn glir sut mae'r medrau allweddol yn sail i bob dysgu ac yn deall yn glir y cysylltiadau rhwng medrau uwch a medrau pwnc; ac
- mae arweiniad clir ar gyfer cynlluniau ysgol gyfan, yn ogystal â chynlluniau unigol yr athrawon, sy'n ffurfio sylfaen dda i ddatblygu medrau trawsgwricwlaidd y disgyblion.

Geirfa

Datblygu Meddwl ac Asesu ar gyfer Dysgu (APADGOS)

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddatblygu, gweithredu a lledaenu arfer dda o ran addysgu strategaethau datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu.

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Liz Miles AEM	Arolygydd Arweiniol
Ann Jones AEM	Arolygydd Tîm
Lynda Newton AY (Secondiad)	Arolygydd Tîm